| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | **Polisi Diogelu Data**<br>**Data Protection Policy** |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr a Staff<br><br>Students and Staff |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 1 Link: | |
| Dolen at Gam 2 Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: / Equality Impact Assessment Stage 2 Link: | |
| Cynllun Gwella Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb / Equality Impact Assessment Improvement Plan | |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | |
|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | *Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Prif Weithredwr* |
| **Ymgynghoriad:**<br>**Consultation:** | Grŵp Diogelwch Gwybodaeth a Phreifatrwydd (ISPG) |
| **Corff Cymeradwyo:**<br>**Approval Body:** | *Corff Llywodraethu* |
| **Dyddiad Cymeradwyo:**<br>**Approval Date:** | 27/06/2020 |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 27/06/2023 |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | *1.5* |

## Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Diben | 3 |
| 3. Cwmpas | 3 |
| 4. Egwyddorion | 4 |
| 5. Cyfrifoldebau | 4 |
| 6. Hawliau Testunau Data | 6 |
| 7. Hysbysiadau Preifatrwydd | 7 |
| 8. Cael Cydsyniad | 7 |
| 9. Diffiniadau | 7 |
| 10. Dogfennau Cysylltiedig | 8 |
| 11. Monitro ac Adolygu | 9 |
| 12. Hanes Newidiadau | 9 |

# 1. Cyflwyniad

Mae Coleg Cambria yn cadw ac yn prosesu data personol am weithwyr, myfyrwyr a phynciau data eraill at ddibenion academaidd, gweinyddol a masnachol. Wrth gyflawni'r genhadaeth hon ac, fel rhan o'i weithrediadau bob dydd, mae'r Coleg yn ystyried diogelu'r data personol y mae'n ei brosesu o ddifrif.

Bydd y coleg yn gweithredu camau rhesymol a chymesur i sicrhau ei fod yn diogelu data personol rhag ei gamddefnyddio, ei ddifrodi neu ei ddinistrio'n ddamweiniol neu fwriadol. Mae hefyd wedi ymrwymo i bolisi o ddiogelu hawliau a rhyddid pob unigolyn, mewn perthynas â phrosesu eu data personol, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data y DU.

# 2. Diben

Diben y polisi hwn yw sicrhau, wrth brosesu data personol, bod pob aelod o'r coleg yn cydymffurfio â darpariaethau Deddfwriaeth Diogelu Data (h.y. Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad) (a orfodwyd ym mis Mai 2018 wrth brosesu data personol. Bydd unrhyw achos o dorri Deddfwriaeth Diogelu Data yn cael ei drin o ddifrif gan y Coleg a gellir ei ystyried o dan weithdrefnau disgyblu. Gall torri'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data neu'r GDPR hefyd arwain at ddal y coleg a / neu'r unigolyn yn atebol yn ôl y gyfraith.

# 3. Cwmpas

Mae'r Coleg yn prosesu data personol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau addysg a chymorth i'n myfyrwyr; prosesu manylion cyflogaeth staff; rheoli ein cyfrifon a'n cofnodion; darparu gweithgareddau masnachol i'n cleientiaid; hysbysebu a hyrwyddo'r coleg a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Rydym hefyd yn prosesu data personol trwy systemau teledu cylch cyfyng, sy'n monitro ac yn casglu delweddau gweledol at ddibenion diogelu, diogelwch ac atal a chanfod troseddau. Mae'r polisi hwn yn berthnasol ni waeth ble mae'r data personol yn cael ei gadw neu p'un a yw'n cael ei gadw fel cofnodion papur neu'n electroneg.

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau'r coleg ac unrhyw rai eraill a fyddai'n gallu prosesu data personol ar ran y coleg.

# 4. Egwyddorion

Mae'r Coleg yn cadw at egwyddorion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol. Yn unol â'r egwyddorion hyn, bydd data personol:

| **Egwyddorion Cyffredinol y Rheoliadau Diogelu Data** | |
|---|---|
| Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder | yn cael ei brosesu'n gyfreithlon ac mewn modd eglur o ran unigolion. |
| Cyfyngiadau pwrpas | Yn cael ei gasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon a heb ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; ni ystyrir bod prosesu ychwanegol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol |
| Lleihau data | Yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dibenion y cafodd ei gasglu. |
| Cywirdeb | Yn gywir, a lle bo angen hynny, yn cael ei ddiweddaru, ond wrth ystyried y dibenion y mae'r data yn cael ei brosesu ar eu cyfer, rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol anghywir yn cael ei ddileu neu ei gywiro yn ddi-oed. |
| Cyfyngiadau storio | Yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod testunau'r data heb fod dim hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data personol yn cael ei brosesu ar eu cyfer. |
| Uniondeb a chyfrinachedd y data | Yn cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol, gan gynnwys ei ddiogelu rhag ei brosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, ac yn erbyn ei golli'n ddamweiniol, ei ddinistrio neu ei ddifrodi, gan ddefnyddio camau technegol neu sefydliadol priodol |

Mae hyn yn sicrhau bod Rheolwyr Data (e.e. Coleg Cambria) yn gyfrifol am gydymffurfio â deddfwriaeth data personol a'u bod yn gallu dangos a chadarnhau eu bod yn gwneud hynny.

# 5. Cyfrifoldebau

## Pawb

Mae'r coleg yn disgwyl i'w holl aelodau gydymffurfio'n llawn â'i Bolisi Diogelu Data a'r holl Ddeddfwriaeth Diogelu Data perthnasol. Data Protection RACI Matrix.

## Rheolwyr

Mae'r Uwch Dîm Rheoli a phawb sydd mewn swyddi rheoli neu oruchwylio yn gyfrifol am ddatblygu ac annog arfer da wrth drin gwybodaeth a hyrwyddo hawliau preifatrwydd testun

data yn y Coleg. Bydd gan rai rheolwyr gyfrifoldebau ychwanegol am ddiogelu data, yn seiliedig ar eu swyddi yn y sefydliad. Caiff y rhai eu diffinio yn Matrics Diogelu Data RACI Matrix y Coleg.

## Y SWYDDOG DIOGELU DATA

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am faterion diogelu data o ddydd i ddydd, a bydd yn cyflawni'r tasgau a ganlyn:

- Rhoi gwybod a chynghori'r coleg a'i weithwyr am eu rhwymedigaethau i gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data.
- Monitro cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys rheoli gweithgarwch diogelu data mewnol; cynghori ar gynnal asesiadau effaith ar ddiogelu data, hyfforddi staff a chynnal archwiliadau mewnol.
- Bod yn gyswllt cyntaf ar gyfer awdurdodau goruchwyliol ac ar gyfer unigolion y mae'r coleg yn prosesu eu data (gweithwyr, cwsmeriaid, ac ati).

### Staff

Mae staff yn gyfrifol am:

- sicrhau bod yr holl ddata personol sydd gan y Coleg amdanynt yn gysylltiedig â'u cyflogaeth yn gywir ac yn gyfredol;
- rhoi gwybod ar unwaith i'r coleg am unrhyw newidiadau neu wallau yn yr wybodaeth y maent wedi'u darparu, e.e. newid cyfeiriad naill ai trwy Carval neu sianeli priodol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau;
- sicrhau pan fyddant yn prosesu data personol fel rhan o'u swydd - ac y caniateir iddynt wneud hynny o dan hysbysiad y Coleg i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) - bod unrhyw ddata personol a fydd yn cael ei brosesu, yn cael ei gadw'n ddiogel ac nad yw'n cael ei ddatgelu naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig i unrhyw drydydd parti heb awdurdod i wneud hynny;
- rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data (dpo@cambria.ac.uk) os ydynt yn bwriadu prosesu data personol ar gyfer dibenion newydd, trosglwyddo data i brosesydd data newydd neu wneud newidiadau sylweddol i ddulliau rheoli neu drin data personol. Lle cynhelir unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, bydd rhaid cwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) ar y prosesu newydd hwn, neu ar brosesu ychwanegol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth data cyn prosesu'r data personol. Fel rhan o'r asesiad hwn, bydd angen i staff ddarparu manylion llawn am y math o ddata personol sydd i'w brosesu (er enghraifft, manylion ariannol, manylion cysylltu, ac ati), pwy yw testun y data (myfyrwyr, staff, y cyhoedd, ac ati), pam fod y data'n cael ei brosesu (marchnata, gweinyddu staff, ac ati) ac a yw'n fwriad trosglwyddo'r data unrhyw bryd i drydydd parti y tu allan i'r coleg nad yw'n destun y data, gan gynnwys a yw'n bartner rhyngwladol.

Dylai unrhyw un sy'n gyfrifol am greu neu gynnal tudalennau gwe nodi y bydd polisïau diogelwch gwybodaeth a diogelu data'r Coleg a darpariaethau deddfwriaeth diogelu data, yn berthnasol ar gyfer unrhyw ddata personol am unigolion y gellir ei gadw ar dudalennau gwe neu ei gyrchu drwyddynt.

### Myfyrwyr

Mae'n rhaid i fyfyrwyr sicrhau bod unrhyw wybodaeth y maent yn ei roi i'r Coleg yn gywir a'i bod yn cael ei diweddaru. Petaent mewn sefyllfa lle byddant yn prosesu data personol am staff neu fyfyrwyr eraill, yna mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â pholisïau diogelwch gwybodaeth a diogelu data'r coleg a'r gyfraith.

Mae'n rhaid i unrhyw fyfyrwyr yng Ngholeg Cambria sy'n trin neu'n prosesu data personol am unigolion (enwau, manylion cyswllt, manylion ariannol, manylion cyrsiau, amgylchiadau personol, credoau ac ati) yn ystod eu hastudiaethau, fod yn gwybod am yr egwyddorion prosesu a sut i'w cymhwyso.

Bydd y Swyddog Diogelu Gwybodaeth yn gallu egluro hyn yn rhagor: dpo@cambria.ac.uk.

### Eraill

Rhaid i randdeiliaid eraill, contractwyr, ymwelwyr, neu eraill sy'n darparu data personol i'r Coleg neu'n prosesu data personol ar ran y Coleg hefyd gydymffurfio â Pholisi'r Coleg a'r gyfraith.

## 6. Hawliau Testunau Data

O dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data mae gan unigolion hawl i archwilio neu ofyn am yr holl ddata personol sy'n cael ei gadw amdanynt. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, cynnwys ffeiliau myfyrwyr, ffeiliau staff, ffurflenni cofrestru, cofnodion AD. Gallai testunau data fod yn staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, ymgeiswyr am swyddi, cyn-weithwyr, aelodau Bwrdd Llywodraethwyr y Coleg a'r cyhoedd.

O dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ehangwyd hawliau testun data. Fel a ganlyn;

- Yr Hawl i gael Gwybod - dylai unigolion deall y data maent yn cyflwyno a sut fydd y data yn cael ei brosesu.
- Yr Hawl i Fynediad - dylai unigolion gallu gweld y data a gedwir gan y Rheolydd Data, os ydynt yn dymuno.
- Yr Hawl i Gywiro - gall unigolion ofyn i gywiro data personol sy'n anghywir
- Hawl i Ddileu (Yr "Hawl i gael ei Anghofio") - gall unigolion ofyn i ddileu eu data personol os nad oes sail gyfreithlon gan y Coleg i'w gadw
- Yr Hawl i Gludadwyedd - dylai'r Rheolydd Data symud data'r unigolyn i reolydd arall i'w ddefnyddio yn rhagor
- Yr Hawl i Wrthwynebu - gall unigolion wrthwynebu prosesu eu data os ydynt yn amau

nad yw'r sail dros wneud hynny yn gyfreithlon

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i reoli ceisiadau o'r fath a dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno cael gweld eu data personol neu arfer eu hawliau dan GDPR, gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar dpo@cambria.ac.uk.

# 7. Hysbysiadau Preifatrwydd

Pan fo'r coleg yn cael data yn uniongyrchol gan destun data, bydd rhaid i'r coleg roi gwybodaeth i'r testun data ynghylch prosesu data personol sydd:

- yn gryno, eglur, ddealladwy ac yn hawdd ei chyrchu;
- wedi'i hysgrifennu mewn iaith glir, yn enwedig os yw ar gyfer plentyn; a'i bod
- am ddim.

Mae'r GDPR yn nodi'r wybodaeth y dylai'r coleg ei roi i unigolion:

- Manylion pwy yw'r rheolwr a sut i gysylltu ag ef/hi (a lle bo hynny'n berthnasol, cynrychiolydd y rheolwr) a'r swyddog diogelu data
- Pwrpas y prosesu a'r sail gyfreithlon dros hynny
- Buddiannau cyfreithlon y rheolwr neu'r trydydd parti, lle bo hynny'n berthnasol
- Unrhyw dderbynnydd neu gategorïau o dderbynwyr y data personol
- Manylion trosglwyddo i drydedd wlad a mesurau diogelwch
- Cyfnod cadw neu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod cadw
- Pob un o hawliau testun y data
- Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl unrhyw bryd, lle bo hynny'n berthnasol
- Yr hawl i gwyno i awdurdod goruchwylio
- A yw'r darparu data personol yn rhan o ofyniad neu ymrwymiadau statudol neu gontractiol a chanlyniadau posibl methu â darparu'r data personol
- A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomataidd, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut gwneir penderfyniadau, arwyddocâd a chanlyniadau hynny

# 8. Cael Cydsyniad

Ni ddylid cael, cadw, defnyddio na datgelu data personol na data sensitif oni bai bod gan y Coleg sail gyfreithiol dros wneud hynny ac efallai y bydd angen caniatâd yr unigolyn ar gyfer hynny.

Bydd y Coleg hefyd yn prosesu dosbarthiadau penodol o ddata personol i gyflawni gofynion cytundebol. Mae hwn yn amod ar gyfer derbyn myfyriwr ar unrhyw gwrs, ac fel amod cyflogaeth i staff.

Os yw data personol i gael ei ddefnyddio at ddibenion marchnata uniongyrchol yna mae'n rhaid rhoi gwybod i destun y data am hynny adeg casglu'r data a bydd yn rhaid i'r testun data ddewis cael yr ohebiaeth yn gadarnhaol.

# 9. Diffiniadau

**"Data Personol"** Unrhyw wybodaeth sy'n enwi neu yn ei gwneud hi'n hawdd i adnabod unigolyn byw. Mae gwahanol ddarnau o wybodaeth, a gesglir gyda'i gilydd yn gallu arwain at adnabod person penodol, hefyd yn ddata personol.

**“Data Sensitif / Data Categori Arbennig”** Unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur, iechyd, bywyd rhywiol, neu euogfarnau troseddol. Mae amodau prosesu llawer mwy caeth ar gyfer trin data sensitif.

**“Rheolydd Data”** Unrhyw unigolyn (neu sefydliad) sy’n gwneud penderfyniadau ynglŷn â data personol penodol, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â’r dibenion ar gyfer prosesu data a sut mae’r data hwnnw’n cael ei brosesu.

**“Testun Data”** Unrhyw unigolyn byw sy’n destun data y mae sefydliad yn ei gadw amdanynt.

**“GDPR”** Dyma’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad (GDPR) (UE) 2016/679) y mae Senedd Ewrop, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd a’r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu atgyfnerthu ac uno diogelu data ar gyfer pob unigolyn yn yr Undeb Ewropeaidd (UE).

**“Prosesu”** Unrhyw weithrediad sy’n ymwneud â threfnu, adalw, datgelu a dileu data ac mae’n cynnwys: Cael a chofnodi data, cyrchu, addasu, ychwanegu at, uno, dileu, adalw data, ymgynghori neu ddefnyddio datgelu data neu fel arall sicrhau bod data ar gael.

**“Trydydd Parti”** Unrhyw unigolyn/sefydliad ac eithrio’r testun data, y rheolydd data neu ei weithredwyr.

**“Staff”** Unrhyw unigolyn a gyflogir gan y Coleg, gan gynnwys cyn-weithwyr, gweithwyr presennol a darpar weithwyr.

**“Myfyrwyr”** Unrhyw unigolyn sy’n mynychu cwrs yn y Coleg, gan gynnwys cyn-fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr.

# 10. Dogfennau Cysylltiedig

Dylid darllen y Polisi hwn ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau eraill y Coleg. Mae’r dogfennau a ganlyn yn berthnasol i’r Polisi hwn:

- ISP001 Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- ISP005 Polisi Trin Gwybodaeth
- ICTSOP-024 Gwybodaeth am y Weithdrefn Rheoli Digwyddiad Diogelwch
- ICTSOP-033 Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Thor Diogelwch Data
- Templed Asesiad Effaith ar Ddiogelwch Data
- Darparu gan Gyflenwyr Allanol a Chydymffurfiaeth Trydydd Parti
- Matrics Diogelu Data RACI

## 11. Monitro ac Adolygu

- Y Prif Swyddog Gweithredol / Dirprwy Prif Weithredwr, fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) y sefydliad, sy'n gyfrifol am gynhyrchu, cynnal a rhoi gwybod am y Polisi hwn.
- Mae'r ddogfen bolisi lefel uchaf hon wedi'i chymeradwyo gan Gorff Llywodraethu'r Coleg. Dim ond gyda chymeradwyaeth bellach y Corff Llywodraethu y gellir gwneud newidiadau sylweddol i'r polisi hwn.
- Y Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am gynhyrchu, cynnal a chyfathrebu holl ddogfennau'r is-bolisi.
- Dirprwyir cyfrifoldebau am gymeradwyo pob dogfen is-bolisi i Grŵp Rheoli Risg y Coleg. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadolygu gan Grŵp Diogelwch Gwybodaeth a Phreifatrwydd y Coleg (ISPG) cyn eu cymeradwyo. Mae'r ISPG yn cynnwys cynrychiolwyr o bob adran berthnasol y sefydliad.
- Adolygir y Polisi Diogelu Data bob 3 blynedd neu'n amlach na hynny yn ôl y gofyn.
- Rhoddir gwybod i'r holl weithwyr perthnasol am unrhyw newidiadau sylweddol a wneir i unrhyw un o'r dogfennau yn y gyfres.

## 12. Hanes Newidiadau

| Fersiwn Rhif: | Yn weithredol o: | Newidiadau Sylweddol |
|---|---|---|
| **1** | **04/05/2016** | Polisi Newydd |
| **1.1** | **12/03/2018** | Diweddaru'r Polisi i gynnwys gofynion y GDPR |
| **1.3** | **19/04/2018** | Y Corff Llywodraethu yn cymeradwyo'r diweddariad |
| **1.4** | **30/10/2019** | Diweddaru cyfrifoldebau, ychwanegu Matrics RACI a dileu cyfeiriad at Ddeddf Diogelu Data 1998 |
| **1.5** | **27/06/2020** | Wedi'i adolygu heb unrhyw newidiadau |